PARTNERS AND TRAILS


Glasgow Caledonian University
Ulster University
Donegal County Council
ROUTE Inch Levels
Sligo County Council
ROUTE Knocknarea/ Killaspugbrone Loop
Merthyr Tydfil County Borough Council
ROUTE Taff Trail
Dirección General de Protección de la Naturaleza Gobierno de Canarias
ROUTE La Caldera de Taburiente
Ville de Louvigné du Désert
ROUTE Chemin de Mémoires
Municipio de Viana do Castelo
ROUTE Sacred Mountain Trail
Universidad do Algarve
ROUTE Seven Hanging Valleys
Navarra de Suelo y Vivienda, S.A.U.
ROUTE Vía Verde del Plazaola
Highlands and Islands
South Western Scotland
Northern Ireland
Border, Midland and Western
Southern and Eastern
Cumbria
Lancashire
Merseyside
Greater Manchester
Cheshire
East Wales
West Wales and The Valleys
Gloucestershire Wiltshire and Bristol Bath area
Cornwall and Isles of Scilly
Devon
Dorset and Somerset
Madeira
Açores
Islas Canarias
Bretagne
Haute-Normandie
Basse-Normandie
Galicia
Principado de Asturias
Aquitaine
País Vasco
Cantabria
Comunidad Foral de Navarra
Norte
Centro
Lisboa
Alentejo
Algarve

FOR FURTHER INFORMATION

http://www.trailgazers.eu

TrailGazers Bid

TrailGazers Bid

Trail.Gazers

Partners:

Mae Trail Gazers (TG) yn brosiect partneriaeth Ewropeaidd a sefydlwyd gyda set gyffredin o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Y nod yw datblygu technolegau a systemau arloesol i groniclo gweithgareddau'r llwybrau a datblygu cynlluniau i'w rheoli'n gynaliadwy.

Bydd Trail Gazers yn mesur yr effeithiau economaidd-gymdeithasol a ddaw yn sgil buddsoddi a hyrwyddo llwybrau mewn ardaloedd sy'n meddu ar dreftadaeth naturiol gyfoethog. Gobaith y prosiect yw creu "dangosfwrdd llwybrau", defnyddio offer i dargedu ymwelwyr yn ddigidol, a hybu nifer y twristiaid sy'n mynd i ardaloedd yr Iwerydd.

TAFF TRAIL
MERTHYR TUDFUL

Straeon Coll / Diwylliant

Mae 55 milltir (88km) Taith Taf (Llwybr Rhwydwaith Seiclo Cenedlaethol 8 a 46) yn llwybr aml-bwrpas ar gyfer rhedwyr, cerddwyr, seiclwyr ac ar gyfer marchogaeth ceffylau.

Mae'n rhedeg rhwng Caerdydd (Prifddinas Cymru) yn y de, i dref farchnad dlos Aberhonddu yn y gogledd. Mae'r llwybr yn rhedeg yn syth trwy Ferthyr Tudful, a oedd unwaith yn brifddinas haearn y byd.

Gan ddefnyddio'r hen dramffyrdd, rheilffyrdd, camlesi a llwybrau tynnu, gallwch fwynhau popeth sydd gan Ferthyr i'w gynnig ac mae darnau helaeth o'r dref wedi'u dynodi'n rhydd o draffig.

Mae teithio i'r gogledd trwy Dref Merthyr yn mynd â chi ar draws Traphont ysblennydd Cefn Coed sy'n adeilad rhestredig Gradd II.

Byddwch yn pasio trwy goetiroedd a gwarchodfeydd natur ac yn croesi Traphont hanesyddol Pont-sarn wrth ichi ddringo'n hamddenol i Gronfa Ddŵr Pontsticill ac ymlaen i Aberhonddu.

Dim ond un o sawl llwybr sy'n rhedeg trwy'r Fwrdeistref Sirol yw Taith Taf. Felly, os ydych chi am gymryd amser i aros yn un o'n hatyniadau antur anhygoel, dysgu am ein hanes, siopa, bwyta, cysgu neu gymryd dim ond ennyd i ryfeddu at y golygfeydd syfrdanol - mae gan Ferthyr y cyfan!

© Copyright : Taith Taf Map

Trail Gazers Bid is co-financed by the Interreg Atlantic Area Programme through the European Regional Development Fund



“An Endless Trail of Possibilities”

1

GORSAF A THRAPHONT PONTSARN

Adeiladwyd yr orsaf brysur hon ym 1866 fel rhan o Reilffordd Aberhonddu a Merthyr. Roedd ganddi ei Gorsaf Feistr a’i Phorthor ei hun a hyd at 21 o wasanaethau’n ddyddiol.

Mae’r draphont wych yn 455 troedfedd o hyd, yn 92 troedfedd o uchder ac mae’n cael ei chefnogi gan saith bwa carreg gosgeiddig sydd yn cydgysylltu dwy ochr y ceunant dros afon

Daeth y rheilffordd â llawer iawn o ymwelwyr, rhai ohonynt a oedd am ddianc rhag amodau gwaith caled y diwydiant haearn a glo’r Cymoedd. Tyfodd y lleoliad prydferth hwn i fod yn ‘fan cyfarfod ar gyfer miloedd o dwristiaid ac ymwelwyr o bob rhan o’r wlad... “

Mae’n awr yn strwythur hanesyddol rhestredig ac wedi’i leoli mewn ardal o harddwch naturiol (SoDdGA) mewn coetir llydanddail hynafol.

10

CHWARELI AM GALCHFAEN - CHWAREL Y FAENOR

Ar gyfer pob tunnell o fwyn haearn a fyddai’n cael ei ychwanegu i’r ffwrnais flast, byddai angen ychwanegu dwy dunnell o galchfaen!

Agorwyd Chwarel y Faenor gan y teulu Crawshay ym 1847 er mwyn darparu calchfaen ar gyfer Gwaith Haearn Cyfarthfa. Defnyddiwyd calchfaen er mwyn puro’r mwyn haearn ac roedd yn cael ei defnyddio trwy gydol yr 20fed ganrif. Tynnwyd y llun hwn o’r chwarelwyr yn y Faenor yn y 1890au.

Ym 1957, cynhyrchodd y chwarel 1000 tunnell o galchfaen pob dydd a oedd yn cael ei ddefnyddio yn y diwydiant adeiladu. Erbyn 2010, daeth y gwaith cynhyrchu i ben ac mae’r chwarel yn awr wedi ei chau.

Mae nifer o chwareli calchfaen yn yr ardal a gellir gweld eu holion ar hyd ein llwybrau a’n bryniau, gan gynnwys Taith Taf yn Nhrefechan.

9

TRAPHONT CEFN COED

Mae’r draphont Gradd ii rhestredig yn 220m o hyd a dyma drydedd draphont hiraf Cymru!

Adeiladwyd ym 1866 er mwyn cludo rheilffordd Aberhonddu a Merthyr ar draws Afon Taf. Mae gan y draphont urddasol hon 15 bwa ac mae pob un ohonynt yn 39 troedfedd a 6 modfedd o led. Teithiodd y trên olaf i deithwyr ar y draphont ym 1964 ac wedi hynny, gwaethygodd ei chyflwr.

Erbyn hyn, mae’r draphont wedi ei hatgyweirio’n llawn ac yn rhan o Lwybr 8 Llwybr Beicio Cenedlaethol Taith Taf. Dywedwyd i’r draphont gael ei hadeiladu ar gromlin fel bod trac y rheilffordd yn osgoi eiddo’r Meistr Haearn, Robert Thompson Crawshay.

Ewch i Gastell Cyfarthfa er mwyn dysgu rhagor am deulu Crawshay ac am hanes Merthyr Tudful.

2

PONT-Y-CAFNAU A’R BONT DDŴR

Tramffordd haearn dur hynaf y byd! Mae’n Heneb Hynafol Gofrestredig ac yn Strwythur Gradd ii Rhestredig.

Adeiladwyd ym 1793 gan Watkin George, Peiriannydd yn y Gwaith Haearn. Cafodd tramffordd Pont-y-Cafnau ei hadeiladu er mwyn cludo dŵr a chalchfaen dros Afon Taf i Waith Haearn Cyfarthfa.

Erbyn 1796, ychwanegwyd Pont Ddŵr, yn cludo dau gafn dŵr ar gyfer yr olwyn ddŵr a adeiladwyd gan George er mwyn gyrru awyr oer i’r ffwrneisi blast. Enwyd yr olwyn fawr hon yn ‘Aeolus’ ar ôl duw Groegaidd y gwynt.

Mae Pont-y-Cafnau wedi ei lleoli ger Taith Taf ac yn cael ei defnyddio heddiw gan gerddwyr.



8

GWAITH HAEARN CYFARTHFA

Ar un adeg, dyma oedd gwaith haearn mwyaf y byd a sbardunodd y Chwyldro Diwydiannol!

Cafodd y gwaith ei sefydlu gan Anthony Bacon ym 1766, ond o dan berchnogaeth y Meistr Haearn, Richard Crawshay <https://en.wikipedia.org/wiki/Richard_Crawshay>, tyfodd y gwaith i fod yn gynhyrchydd haearn pwysig. Yn sgil nifer o ryfeloedd morol, roedd y galw am ganonau ar gynnydd. Roedd y safle’n allweddol ar gyfer llwyddiant y Llynges Brydeinig a chafwyd ymweliad gan y Llyngesydd Nelson ym 1802.

Mae’n anodd dirnad maint a graddfa’r gwaith. Gadawodd 50,000 tunnell o gledrau’r gwaith haearn ym 1844 ar gyfer adeiladu rheilffyrdd ar draws Rwsia a Siberia.
Erbyn heddiw, gellir gweld gweddillion chwe ffwrnais flast a bwa briciau anferth.

‘Y mwyaf a’r mwyaf cyflawn sydd wedi goroesi ar y ddaear,’ Cymdeithas Archaeoleg Ddiwydiannol.

3

GWAITH HAEARN YNYSFACH

Roedd Ynysfach yn defnyddio dwy ffwrnais flast oedd yn 53 troedfedd o uchder a’r gwaith haearn hwn oedd y cyntaf i gael blast stêm a oedd yn cynhyrchu allbwn llawer yn uwch.

Roedd gefail ar y safle o 1769 ymlaen ond sefydlwyd y gwaith haearn wedi i’r brydles gael ei throsglwyddo i’r Meistr Haearn, Richard Crawshay ym 1801. Roed yn gyffredin i blant weithio yn y gwaith haearn ac ym 1842, cofnododd swyddogion y llywodraeth eu hamodau gwaith.

John Lewis, 10 mlwydd oed, labrwr yn yr efail: “Rwy’n llenwi’r casgenni â haearn ac yn mynd â hwy i’r efail. Rydw i’n gweithio pob dydd ac wedi gwneud hynny ers chwe mis. . .rwyf wedi llosgi fy wyneb a fy nhraed ond fyddai fyth yn cymryd sawl diwrnod bant. Roedd mewn ysgol Gymraeg, am ddim ond nid yw’n adnabod llythyren.”

Parhaodd ffwrneisi blast Ynysfach gynhyrchu haearn hyd at streic 1874.

7

CAMLAS SIR FORGANNWG

Ar un adeg, dyma oedd un o ffyrdd dŵr mwyaf Ewrop - traffyrdd y cyfnod!

Adeiladwyd rhwng 1790 ac 1794 a chynlluniwyd y gamlas gan Thomas Dadford er mwyn i Waith Haearn Crawshay gludo haearn o Ferthyr i Gaerdydd mor gyflym a rhad â phosib. Roedd yn 25 milltir o hyd ac yn cynnwys 51 loc a oedd yn caniatáu cwymp o 543 troedfedd.

Tynnwyd badau gan geffylau a gallent ddal hyd at 20 tunnell, llawer mwy na’r 1 dunnell allai gael ei gludo ar y ffordd. Yn ôl y sôn, gallai’r cychwyr fynd o Ferthyr i Gaerdydd ac yn ôl eto, dair gwaith mewn pythefnos.

Heddiw, mae hen lwybr y gamlas yn rhan o Daith Taf sy’n cael ei defnyddio gan gerddwyr, rhedwyr, seiclwyr a marchogion.


5

TWNNEL TREVITHICK – CYSYLLTIAD TREVITHICK O BONTYGWAITH I ABERCYNON

Dechrau oes y stêm ar y cledrau!

Ar 21 Chwefror 1804, tynnodd locomotif stêm cyntaf y byd i deithio ar gledrau, 10 tunnell o haearn mewn 5 cerbyd ar hyd naw milltir o dramffordd newydd a oedd yn cysylltu gwaith haearn Merthyr Tudful â Chamlas Sir Forgannwg yn Abercynon.

Nid yw’n wybyddus os cafodd y bet o 500 guinea a sbardunodd ddyfeisio’r injan locomotif pwysedd uchel hwn erioed ei dalu.

Mae’r llwybr hanesyddol yn awr yn llwybr seiclo/cerdded a enwyd ar ôl Richard Trevithick, peiriannydd a dyfeisiwr y locomotif.

4

PONT BRUNEL, CAMLAS A LLWYBR YN RHYDYCAR (PONT GAM)

Ganwyd Isambard Kingdom Brunel ym 1806 ac mae fwyaf adnabyddus am greu rheilffordd y Great Western ac am nifer o bontydd gwychaf Prydain.

Mae pont gam Merthyr, a gynlluniwyd gan Brunel yn bont ac iddi dri bwa. Ym 1853, arferai gario rheilffordd. Cwm Nedd dros Gamlas Sir Forgannwg. Dechreuwyd adeiladu’r gamlas ym Merthyr ym 1790 ac agorodd ym 1794.

Adeiladwyd y gamlas er mwyn symud llawer o haearn a glo o Ferthyr Tudful i ddociau Caerdydd. Cafod y gamlas ei hepgor gan Daith Taf ond mae’r bont gam, Gradd ii Rhestredig yn enghraifft brin o un o’r pontydd cynharaf ar Gamlas Sir Forgannwg.

The ironwork for many of Brunel’s bridges came from Merthyr Tydfil and he continued to use the same iron for the Great Western Railway.

6

PONT PONT Y GWAITH – TAITH TAF A LLWYBR TREVITHICK

Mae Pont y Gwaith yn bont groca, Gradd ii Rhestredig dros Afon Taf sydd yn dyddio yn ôl i’r 1540au.

Adeiladwyd y bont garreg sydd i’w gweld heddiw ym 1811 ond cyn hynny, roedd yma hen bont bren. Adeiladwyd y bont yn wreiddiol er mwyn cludo traffig o’r pentref a’r gweithfeydd haearn dros Afon Taf i ymuno â’r hen ffordd i Gaerdydd.

Sefydlodd Anthony Morley, Meistr Haearn o Swydd Sussex waith haearn bychan ym Mhont-y-gwaith ym 1583. Credwyd i’r gwaith gael ei ddifrodi gan filwyr yn ystod y Rhyfel Cartref yn y 17eg ganrif.

Mae Pont y Gwaith yn cyfeirio at y Gwaith Haearn a oedd yma ym 1583.